

Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw

Chwefror 2020

Cyflwyniad

Yn ein digwyddiad Cyflwr y Genedl ym mis Ionawr 2020, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr fyfyrion ar ganfyddiadau ein hadroddiad diweddar *Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw*. Mae'r adroddiad yn ystyried cyfradd a natur tlodi menywod yng Nghymru, ar sail data ystadegol yn ogystal â phrofiad bywyd menywod.

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod menywod mewn mwy o berygl o dlodi ar draws nifer o wahanol fesurau, gan gynnwys incwm cymharol, amddifadedd materol, asedau a dyledion, digartrefedd ac ansicrwydd o ran bwyd. Yr hyn sydd hyd yn oed yn fwy amlwg, fodd bynnag, yw'r modd y mae risg a phrofiad menywod o dlodi yn wahanol i rai dynion. Mae tlodi menywod yn aml yn cael ei siapio, ac weithiau ei guddio, gan eu perthynas â phartner. Mae'r gwahaniaethau ar gyfer menywod sydd â phlant yn arbennig o amlwg, gan eu bod yn ysgwyddo llawer o'r costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth fagu plant tra maent hefyd yn byw gyda'r cyfyngiadau ar eu sefyllfa o ran y farchnad lafur a'u haddysg. Mae menywod sy'n byw ar incwm isel yn aml mewn sefyllfa ansicr, lle gall hyd yn oed y digwyddiad annisgwyl lleiaf amharu ar eu cyllidebu gofalus. Prin yw'r achosion lle mae'r ateb mor syml â chynyddu oriau gwaith menywod, gan fod llawer yn cadw cydbwysedd gofalus rhwng gwaith, gofal a budd-daliadau, ac nid ydynt am darfu ar y cydbwysedd hwn.

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol o drafodaethau bord gron Cyflwr y Genedl 2020 ar y themâu a geir o fewn *Yn Gaeth*, sy'n cynnwys menywod, tlodi a gwaith cyflogedig; y system nawdd cymdeithasol; gofal plant; mynediad i wasanaethau hanfodol: addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, trafniadaeth, trefniadau'r cartref ac annibyniaeth ariannol.

Fe wnaethom ofyn dau set o gwestiynau i'r cynrychiolwyr. Nodir themâu cyffredin y trafodaethau bord gron o amgylch y rhain isod.

1. Sut mae eich profiadau chi'n cymharu â chanfyddiadau *Yn Gaeth*? Ydych chi'n adnabod yr heriau hyn? A oes heriau eraill yn wynebu menywod mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o dlodi?

Roedd y cynrychiolwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r materion a amlinellwyd yn *Yn Gaeth*, gan egluro bod y rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd.

Roedd rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd ymddangosiadol o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ac roedd awydd i weld newid yn digwydd yn gyflymach.

1. Gwybodaeth a chyngor

- 1.1. Thema a gododd yn rheolaidd yn y trafodaethau oedd pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch. Roedd y mater hwn yn berthnasol i lawer o'r rhwystrau eraill a nodwyd gan gynnwys nawdd cymdeithasol, gofal plant a mynediad at wasanaethau.
- 1.2. Canolbwyntiwyd yn benodol ar gyngor ynghylch dyledion. Nododd y cynrychiolwyr fod menywod yn aml yn cynnal baich dyledion, a bod menywod yn llawer mwy parod na dynion i chwilio am gyngor ac arweiniad ar ddyledion. Cwestiynwyd hefyd a ydyn ni'n deall yn llawn sut mae menywod yn ymdopi â dyledion ac arian.
- 1.3. Nodwyd bod diffyg gwybodaeth hygyrch am systemau cymhleth, megis nawdd cymdeithasol, yn ffactor sy'n cyfrannu at ddiffyg hawlio budd-daliadau a diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y mae gan bobl hawl iddo. Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod gormod o gyfrifoldeb o hyd ar unigolion yn gwybod ble i fynd i chwilio am wybodaeth.
- 1.4. Nodwyd bod rhwystrau iaith i'r rhai nad oes ganddynt sgiliau Saesneg da yn atal mynediad amserol at wybodaeth, cyngor a chymorth.
- 1.5. Mae cefnogi pobl i gael gwasanaethau cyngor a chymorth yn ystyriaeth bwysig. Gallai canolbwyntio ar gymorth ar-lein yn unig fod yn creu mwy o rwystrau i rai pobl.

2. Mynediad at wasanaethau

- 2.1. Roedd mynediad at wasanaethau hanfodol yn bwynt trafod cyffredin. Roedd hyn yn aml yn cynnwys gofal plant, a drafodir ar wahân isod.
- 2.2. Teimlwyd bod gwasanaethau hanfodol wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod diffyg opsiynau wyneb yn wyneb yn gwaethygu achosion o deimlo'n ynysig.
- 2.3. Rhoddwyd sylw i brofiadau o addysg hefyd. Teimlwyd y gall addysg fod yn anhygyrch ac yn gostus (ffioedd dysgu a chostau cyrsiau, costau gofal plant, teithio, costau byw ac ati). O ganlyniad, roedd y cynrychiolwyr yn teimlo bod "dyddiau cael ail gyfle wedi mynd neu wedi prnhau."
- 2.4. Nodwyd hefyd bod cael gafael ar wasanaethau mewn lleoliadau gwledig yn fater allweddol.

3. Gofal plant

- 3.1. Roedd rhwystrau parhaus yn ymwneud â gofal plant yn cynnwys gofal gwyliau ysgol, hygyrchedd a fforddiadwyedd.
- 3.2. Er bod y Cynnig Gofal Plant newydd yn cael ei ystyried yn gam i'r cyfeiriad cywir, roedd pryderon yn parhau ynghylch a yw'r meini prawf cymhwysedd presennol yn gywir. Roedd pryderon bod diffyg cymorth ar gael i rai grwpiau, gan gynnwys menywod hŷn.
- 3.3. Gall aelwydydd incwm isel fod yn arbennig o ddibyynnol ar ofal plant anffurfiol.

4. Nawdd Cymdeithasol

- 4.1. Daeth cymhlethdod y system fudd-daliadau bresennol i'r amlwg fel mater allweddol. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys taliadau sengl yn seiliedig ar fodel enillydd cyflog, methu â rhannu taliadau rhwng cyd-rieni, diffyg hyblygrwydd o fewn y system i ymateb i gymhlethdodau bywydau pobl a bod rhywfaint o gefnogaeth yn dibynnu ar y cod post.

5. Annibyniaeth ariannol
 - 5.1. Nodwyd bod sicrhau bod menywod yn annibynnol yn ariannol, gan felly leihau'r risg o fynd i dlodi o ganlyniad i chwalu perthynas, yn fater hollbwysig. Nodwyd bod mynediad at gyngor a chanllawiau ynghylch cyllid yn broblem, yn enwedig i fenywod hŷn.
6. Gweithio hyblyg
 - 6.1. Roedd gweithio hyblyg yn cael ei gysylltu'n agos â'r trafodaethau am ofal plant. Teimlwyd bod angen gweld y materion hyn gyda'i gilydd, a bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw gweithio hyblyg yn cael ei weld fel "mater i fenywod" yn unig.
 - 6.2. Er bod menywod a chyflogwyr yn ystyried bod gweithio hyblyg yn beth cadarnhaol i raddau helaeth, roedd rhai pryderon y gall atgyfnerthu rolau rhywedd yn anfwriadol. Mae'n bwysig felly bod gweithio hyblyg yn cael ei weithredu o fewn y diwylliant gweithle cywir, ac yn cael ei drin fel rhywbeth sydd ar gael i bawb, nid yn unig fel polisi sy'n ystyried teuluoedd.

2. Beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol er mwyn mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi ymhlith menywod? Pa ymyriadau sydd angen eu blaenoriaethu?

Cafwyd amrywiaeth eang o atebion gan gynrychiolwyr, oedd yn berthnasol i'r holl rwystrau a drafodwyd uchod, ac sy'n ategu ac yn adeiladu ar y rhai a geir yn *Yn Gaeth*.

1. Datblygu strategaeth drawslywodraethol a thrawsbleidiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi.
2. Mabwysiadu dull cyfnod bywyd o ddarparu nawdd cymdeithasol a gwasanaethau hanfodol, fel bod pobl yn cael yr wybodaeth berthnasol ar adegau o newid e.e. priodi, cael plant, mynd i mewn i fyd gwaith ac ati.
3. Mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ehangach ledled Cymru.
4. Symud oddi wrth gymorth yn seiliedig ar leoliad gan nad yw amgylchiadau ariannol bob amser yn cael eu siapio gan ddaearyddiaeth.
5. Gwella addysg a chyngor sy'n ymwneud â rheoli ariannol:
 - 5.1. Rhoi arweiniad ynghylch cael sgysiau pendant am faterion ariannol
 - 5.2. Egluro'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith sy'n ymwneud â benthyca
 - 5.3. Sicrhau bod pobl yn deall manteision ac anfanteision cyfrifon ar y cyd ac ymrwymadau ariannol e.e. morgeisi
6. Datblygu atebion drwy gydgyhyrchu er mwyn sicrhau bod lleisiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd yn llywio atebion
7. Defnyddio canolfannau cymunedol a siopau un stop fel y gall pobl gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth mewn un lleoliad. Ni ddylai amseroedd mynediad ar gyfer canolfannau o'r fath fod o 9am-5pm yn unig, gan nad yw hyn yn hygyrch i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser, yn gweithio sifftiau neu'n rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.
8. Gwella'r cyfathrebu am y Cynnig Gofal Plant newydd. Roedd y cyfathrebu yn llawer amlach ar y dechrau ond mae'n rhaid cynnal hyn drwy gydol y cyfnod cyflwyno.
9. Gwella'r broses o gasglu data, yn enwedig ar gyfer grwpiau gwahanol fel menywod hŷn neu fenywod BAME, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni ar gyfer pawb.